

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon I

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o Genesis

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH  
Genesis 37: 1-11

Mae'r stori  
yma'n sôn am:  
**Breuddwydion**  
rhyfedd Joseff.

## Stori I Y Breuddwydiwr Ifanc

Roedd gan Joseff deulu mawr. Roedd ganddo DDEG brawd mawr ac UN brawd bach.

**Rhowch gylch o gwmpas yr atebion CYWIR.**

Sawl brawd mawr oedd gan Joseff?


10 12 1

Sawl brawd bach oedd gan Joseff?

10 12 1

Doedd brodyr mawr Joseff ddim yn ei hoffi. Roedden nhw'n genfigennus ohono gan fod eu tad wedi gwneud côt hardd iddo. Roedd hi'n gôt liwgar iawn. Efallai mai un fel hyn oedd hi.


**Lliwiwch y gôt.**



Rheswm arall pam nad oedd brodyr mawr Joseff yn ei hoffi oedd ei fod yn cael breuddwydion rhyfedd. Breuddwydiodd fod bwndeli yd ei frodyr yn plygu o flaen ei fwndel ef. Breuddwydiodd hefyd fod yr haul, y lleuad ac 11 o sêr yn plygu o'i flaen.

Roedd y breuddwydion yn golygu y byddai Joseff yn fôs ar ei frodyr i gyd. Roedd gan Dduw gynllun mawr ar gyfer bywyd Joseff!

Mae Duw yn caru pawb ac mae ganddo gynllun ar ein cyfer.





DARLLENWCH  
Genesis 37: 12-36

Mae'r stori  
yma'n sôn am:  
**Brodyr Joseff**  
yn ei werthu.

## Stori 2 Brodyr Joseff yn ei Gasáu

Un diwrnod, gofynnodd Jacob, tad Joseff, iddo fynd i weld sut roedd ei frodyr. Roedden nhw'n bell i ffwrdd yn gofalu am eu defaid.

**Ysgrifennwch enw eu tad yma:** J \_ \_ \_ \_

Pan aeth Joseff at ei frodyr, fe wnaethon nhw afael ynddo, tynnu ei gôt a'i daflu i mewn i dwll mawr yn y ddaear. Wedyn, dyma nhw yn ei werthu i bobl oedd yn mynd i'r Aifft. Talodd y bobl 20 darn arian amdano ac aethon nhw ag ef i fod yn was.

Lladdodd ei frodyr afr a rhoi côt Joseff yn ei gwaed. Aethon nhw â'r gôt adref i ddangos i'w tad a dweud celwydd wrtho. Dywedon nhw eu bod nhw wedi dod o hyd i'r gôt. Roedd Jacob yn meddwl bod anifail gwyllt wedi lladd Joseff.

Dyna greulon oedd brodyr Joseff! Roedden nhw'n meddwl na fyddai neb yn gwybod bod Joseff yn dal yn fyw! Ond, ar ôl blynyddoedd, cawson nhw eu dal!

**Lliwiwch y geiriau hyn o'r Beibl.**

“Bydd eich pechod  
yn eich dal.”

**Numeri 32: 23**





DARLLENWCH  
Genesis 39: 1-6  
a 19-23

Mae'r stori  
yma'n sôn am:  
Joseff yn y  
carchar.


### Stori 3 Y Carcharor Da

Yn yr Aifft, cafodd Joseff ei werthu i fod yn was i ddyn o'r enw Potiffar. Roedd e'n garedig wrth Joseff ac roedd Joseff yn cael gofalu am bopeth yn ei gartref.

#### Llanwch y bylchau.

Aeth Joseff i wlad yr  
A \_\_\_\_\_.

Cafodd ei werthu i ddyn o'r  
enw P \_\_\_\_\_ ff \_\_\_\_\_.



Roedd Joseff yn was da a ffyddlon. Ond, un diwrnod, dywedodd gwraig Potiffar bod Joseff wedi gwneud rhywbeth drwg. Dywedodd hi gelwydd wrth Potiffar am Joseff.

Credodd Potiffar ei wraig a chafodd Joseff ei daflu i'r carchar.

Druan â Joseff! Roedd wedi colli ei waith, ei gartref a'i ffrindiau. A oedd Duw wedi anghofio amdano? Nac oedd, wir! Hyd yn oed yn y carchar -

“Roedd yr  
Arglwydd gyda  
Joseff”

#### Lliwch y geiriau.

Beth bynnag sy'n digwydd, dylen ni drystio Duw. Bydd Duw gyda ni bob amser os ydyn ni'n credu yn Iesu Grist.



DARLLENWCH  
Genesis 41: 14-49

Mae'r stori  
yma'n sôn am:  
**Joseff yn  
rheoli'r Aifft.**


## Stori 4 Yr Arweinydd Newydd

Roedd Joseff yn y carchar am amser hir! Un diwrnod, cafodd gwrdd â brenin yr Aifft. Roedd y brenin wedi cael dwy freuddwyd ryfedd iawn. Roedd eisiau gwybod beth oedden nhw'n feddwl. Dywedodd rhywun wrth y brenin bod Joseff yn gwybod beth oedd ystyr breuddwydion.

Dywedodd Joseff wrth y brenin bod y breuddwydion yn golygu y byddai saith mlynedd â digon o fwyd ac wedyn saith mlynedd a dim digon o fwyd. Byddai eisiau bwyd ar bobl yr Aifft. Dywedodd Joseff y dylai'r brenin drefnu i gadw bwyd ar gyfer yr amser pan oedd bwyd yn brin.

Roedd y brenin yn falch â'r ffordd yr oedd Joseff yn sôn am y breuddwydion. Cafodd Joseff y gwaith o storio'r bwyd. Rhoddodd y brenin anrhegion i Joseff – modrwy, cadwyn aur a cherbyd mawr. Joseff oedd yn rheoli yr Aifft.


**Ysgrifennwch enwau'r pethau a gafodd Joseff yn anrheg gan Pharo. Yna, lliwiwch y lluniau.**



M \_\_\_\_\_



C \_\_\_\_\_



C \_\_\_\_\_

Doedd Duw ddim wedi anghofio am Joseff! Duw oedd y bôs.  
Dylen ni adael i Dduw fod yn fôs ar ein bywyd ni.

10

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---



---



---



---



---

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.

Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.

Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynnyr Roberts.  
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:  
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120